NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Rheoli cyflymder y nerf ffrenig ar gyfer anaf llinyn y cefn serfigol uchel sy'n dibynnu ar beiriant anadlu

21 Awst 2024

Gellir defnyddio'r driniaeth hon ar gyfer anaf llinyn y cefn serfigol uchel sy'n dibynnu ar beiriant anadlu, oherwydd mae ganddi fuddiannau, fel helpu pobl i gael rhywfaint o amser heb beiriant anadlu ac nad oes unrhyw bryderon difrifol am ei ddiogelwch yn y cyflwr hwn.

Anaf yn y gwddf uchaf rhwng y fertebra serfigol cyntaf a'r pedwerydd fertebra serfigol (C1 i C4) yw anaf llinyn y cefn serfigol uchel. Bydd y nerf ffrenig yn rheoli'r diaffram, sef y prif gyhyr a ddefnyddir i anadlu. Gall anaf llinyn y cefn serfigol uchel effeithio ar y nerf ffrenig, sy'n golygu bod angen peiriant anadlu mecanyddol ar rai pobl i'w helpu i anadlu.

Yn y driniaeth hon, caiff electrod ei fewnblannu o gwmpas y nerf ffrenig yn rhan isaf y gwddf neu'r frest. Caiff yr electrod ei gysylltu â derbynnydd a osodir yn wal y frest fel rheol. Yna, bydd trosglwyddydd allanol yn anfon signalau radio-amledd i'r derbynnydd, gan achosi'r electrod i ysgogi (rheoli cyflymder) y nerf ffrenig. Mae'r broses rheoli cyflymder yn gwneud i'r diaffram gyfangu. Y nod yw helpu pobl i anadlu'n normal a chael rhywfaint o amser heb beiriant anadlu, gan wella ansawdd eu bywyd o bosibl.

**A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?**
Dylech fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau am eich gofal.

Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio risgiau a manteision y driniaeth hon ac egluro sut y'i gwneir. Dylai drafod eich opsiynau a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Dylai gynnig rhagor o wybodaeth i chi am y driniaeth. Gellir cynnwys eich teulu neu'ch gofalwyr yn y broses os hoffech hynny, neu os bydd angen eu cynnwys.

Gofynnir i chi benderfynu a ydych yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dysgwch ragor am roi cydsyniad i driniaethau ar wefan y GIG.

**Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt**

- Faint o apwyntiadau y bydd eu hangen arnaf?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- A fydd yn rhaid i mi aros yn yr ysbyty?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gael y driniaeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?

- Mae gwybodaeth NICE am ganllawiau IechydTech yn esbonio beth yw IechydTech a sut rydym yn eu hasesu.
- Mae gwybodaeth NICE am argymhellion ar gyfer IechydTech yn esbonio'r hyn y mae trefniadau safonol yn ei olygu.

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm Healthwatch lleol.

ISBN: 978-1-4731-8993-5